CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Y Mesur Plant

Ar 2 Rhagfyr 2003, yn dilyn dadl yn y cyfarfod llawn ar Araith y Frenhines i'r Senedd, cafodd y Mesur Plant ei gyfeirio gan y Cynulliad Cenedlaethol at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn i'r Pwyllgor hwnnw graffu arno.

Yn unol â'r protocol y cytunwyd arno ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth, bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur yn ei gyfarfod ar 5 Mai 2004. Bryd hynny, roedd y Mesur yn mynd trwy Gyfnod y Pwyllgor yn Nhy'r Arglwyddi.

Gwelliant arfaethedig

Roedd y gwelliant canlynol wedi'i gynnig gan Jonathan Morgan, Rhodri Glyn Thomas, Kirsty Williams a Jocelyn Davies:

"Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwrthod y cynigion yn y Mesur sy'n nodi y bydd Comisiynydd Plant Lloegr yn meddu ar swyddogaethau statudol dros faterion nad ydynt wedi'u datganoli sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, ac yn hytrach yn galw ar i bwerau Comisiynydd Plant Cymru gael eu hestyn i gynnwys y meysydd polisi hynny nad ydynt wedi'u datganoli."

Roedd cynnig tebyg wedi'i gymeradwyo y diwrnod blaenorol gan y Cynulliad yn y cyfarfod llawn a chymeradwywyd y cynnig yn unfrydol heb bleidlais.

Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

Rhan 1

Roedd yr aelodau yn pryderu y gallai'r mesur fel yr oedd wedi'i ddrafftio danseilio statws Comisiynydd Plant Cymru mewn perthynas â materion sydd heb eu datganoli. Er y byddai dyletswydd ar Gomisiynydd y DU i ymgynghori â'r Comisiynwyr Plant yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru ar faterion datganoledig, nid oedd dyletswydd arno i fynd ar drywydd materion a godwyd gan y Comisiynwyr mewn rhannau eraill o'r DU

Gallai ymgynghori olygu bod y Comisiynwyr ar gyfer y DU a Chymru yn mynegi barn wrthdrawiadol ar bwnc.

Rhan 5

Croesawodd y Pwyllgor y pwerau i wella rheoleiddio maethu preifat.

Croesawyd hefyd y ddyletswydd i hybu cyrhaeddiad addysgol plentyn. Dylai targedau ar gyfer cyrhaeddiad addysgol gael eu pennu hefyd ac ni ddylai'r rhain gael eu cyfyngu i lwyddiant yn arholiadau TGAU.

Cyffredinol

Yr oedd siom nad oedd darpariaeth ar gyfer diddymu'r amddiffyniad “reasonable chastisement”. Nododd y Pwyllgor fod y Llywodraeth yn ystyried gwelliant i ychwanegu cymal i'r perwyl hwnnw.

David Melding AC
Cadeirydd
Mai 2004